Dyma ddechrau blwyddyn ysgol newydd unwaith eto. Croeso cynnes yn ôl i bawb, gyda chroeso arbennig i'r disgyblion newydd sef – Gwenan Clegg, Garin Fitter, Mark Holmes, Amy Jenkins, Hanna Meredydd, Jac Smith, Adam Thomson, Lucy Thomson a Ffion Walther i'r Dosbarth Derbyn ynghyd â Hannah Giannasi i ddosbarth Mrs Mitchell.

Rydym yn cofio hefyd am y cyn-ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgolion uwchradd o'r newydd. Anfonwn ein dymuniadau da iddynt oll.

Llongyfarchiadau

Braf oedd clywed bod cymaint o blant yr ysgol wedi derbyn gwobrau yn sioe Penrhyn-coch yn ogystal ag yn sioeau Tal-y-bont a Llandysul.

Bu rhai hefyd yn llwyddiannus gyda llefaru a chanu mewn eisteddfodau hyd y wlad – da iawn chi.

Mabolgampau

Diwedd tymor yr haf cynhaliwyd diwrnod mabolgampau yr ysgol. Cafwyd cystadlu brwd a llawer o hwyl. Ar ddiwedd y dydd Stewi a oedd ar y brig a Seilo wrth eu sodlau!

Tripiau

Cafwyd cyfle i fynd ar drip diwedd y tymor gyda'r babanod yn ymweld â 'Fantasy Farm' ger Llanrhystud, a'r dosbarthiadau iau yn Oakwood. Cafwyd diwrnod i'w gofio gyda phawb yn mwynhau!